

## **Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar**

### **Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw: Sue Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru

e-bost/rhif ffôn: 0300 065 3000

Eich cyfeiriad: Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL21 9HP

Dylid dychwelyd yr ymatebion erbyn **15 Ionawr 2015** i'r:

Tîm Blynyddoedd Cynnar  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Neu lenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

[earlyyears@wales.gsi.gov.uk](mailto:earlyyears@wales.gsi.gov.uk)



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

---

**Cyfoeth Naturiol Cymru yw corff mwyaf Llywodraeth Cymru a noddir yn gyhoeddus gydag ychydig o dan 2000 o staff, cyllideb weithredol o £17 miliwn ac sy'n rheoli 7% o'r tir yng Nghymru. Ein diben yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.**

**Nod Cyfoeth Naturiol Cymru yw:**

***".....chwarae rhan ganolog mewn darparu datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru. Mae hyn yn golygu dwyn ynghyd rheolaeth o'n hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd mewn modd cytbwys ac integredig, er mwyn sicrhau buddion ar gyfer y bobl, yr amgylchedd a'r economi"***

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn. Ein nod yw tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol, yr angen i wreiddio'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangaf yn y cwricwlwm a phwysigrwydd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer yr holl gyfnodau allweddol.**

**Cwestiwn 1** – A fydd y fframwaith hwn yn helpu i nodi lle mae polisïau a rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn gwneud gwahaniaeth?

Bydd

Na fydd

Ansicr

**Sylwadau atodol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn defnyddio'r dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i gynllunio gwaith y dyfodol ac os bydd hwn yn cael ei roi ar waith yn gywir dylai helpu i nodi lle mae polisïau a rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn gwneud gwahaniaeth

**Cwestiwn 2** – A yw'r saith canlyniad yn cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i blant rhwng 0-7 oed?

Ydynt

Nac ydynt

Ansicr

**Sylwadau atodol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod y saith canlyniad a restrir yn berthnasol ac yn briodol, ond mae'n nodi bod rhai yn llawer mwy anodd eu mesur nag eraill e.e. lefelau hapusrwydd a gwytnwch. Gellid hefyd ehangu'r rhestr i wneud canlyniadau eraill yn amlwg yn hytrach na'n ymhlyg.

**Cwestiwn 3** – Os nad yw'r canlyniadau'n gynrychiadol, beth sydd ar goll?

Er mwyn adlewyrchu un o themâu allweddol y Cyfnod Sylfaen, dylai'r holl blant yn y blynyddoedd cynnar feddu ar y canlynol:  
Ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'u hamgylchedd naturiol  
Mynediad i ardaloedd awyr agored ac amgylcheddau naturiol o safon uchel  
Mynediad rheolaidd i brofiadau dysgu a chwarae ymarferol yn yr amgylcheddau hyn

Gall profiadau yn yr amgylchedd naturiol gyfrannu at 5 o'r 7 canlyniad a restrir:

1. "yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel" - mae ar blant angen mynediad rheolaidd i'r amgylchedd naturiol er mwyn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel mewn amgylchedd efallai nad ydynt yn cael profiad ohono fel rhan o fywyd teuluol
2. "yn wydn, yn fedrus ac yn ymdopi" - gall profiadau dysgu yn yr amgylchedd naturiol ganiatáu i blant gymryd risgiau sy'n cael eu rheoli, bydd hyn yn sicrhau bod y plant yn dod yn wydn, yn fedrus a'u bod yn meddu ar y gallu i ymdopi
3. "yn iach"- mae'r buddion corffol ac iechyd meddwl o dreulio amser yn yr awyr agored eisoes yn ddigon hysbys ac mae cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored pan fydd plant yn ifanc iawn yn gallu cyfrannu at ffordd o fyw iach iddynt yn y dyfodol pan fyddant yn oedolion.

4. "dysgu a datblygu" - Mae buddion dysgu a datblygu yn yr awyr agored yn ddigon hysbys (cyf. Modiwl 6 Pecyn Hyfforddi'r Cyfnod Sylfaen a dogfen rhif 0022/2007 – Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth)
5. "yn hapus" - Er bod hyn yn anoddach ei fesur, mae dysgu a chwarae yn yr amgylchedd naturiol yn fuddiol i'r plant hynny nad ydynt mor gyfforddus mewn sefyllfa ystafell ddosbarth ffurfiol a gallai'r profiadau hyn gyfrannu at lefelau uwch o hapusrwydd.

O safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol i bob plentyn a pherson ifanc dyfu fyny yn gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol ac yn teimlo cysylltiad ag ef, er mwyn deall ei bwysigrwydd i gymdeithas. Os yw hyn yn cael ei sefydlu pan fo'r plentyn yn ifanc iawn, bydd y broses hwyrach o gaffael sgiliau a rhoi'r rhain ar waith trwy gyfleoedd cyflogaeth yn cyfrannu at ddefnydd a rheolaeth gynaliadwy hanfodol o adnoddau naturiol Cymru yn y dyfodol.

**Cwestiwn 4** – A ddylid cynnwys 'Mae'r holl blant yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' fel canlyniad annibynnol?

Dylid

Na ddylid

Ansicr

**Sylwadau atodol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r pwyntiau a godwyd yn ystod cyfarfodydd rhanddeiliaid yn y gorfennol ar dudalen 9. Byddem yn cwstyfnu sut y gellir mesur "hapusrwydd" mewn gwirionedd a byddem yn cytuno bod y canlyniadau eraill a restrwyd, yn ogystal â mynediad i'r amgylchedd naturiol a phrofiad ohono, oll yn cyfrannu at lefel hapusrwydd cyffredinol plentyn.

**Cwestiwn 5** – Os yw'r canlyniad 'Mae'r holl blant yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' yn ganlyniad annibynnol, beth yw'r dangosyddion mwyaf priodol?

Dim sylwadau

**Cwestiwn 6** – A ydych yn ymwybodol o unrhyw ddulliau / mecanweithiau / data y gellid eu defnyddio i fesur canlyniadau'r boblogaeth?

Os yw'r awgrymiadau yng Nghwestiwn 3 yn cael eu cynnwys:  
*Ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'u hamgylchedd naturiol*  
*Mynediad i ardaloedd awyr agored ac amgylcheddau naturiol o safon uchel*  
*Mynediad rheolaidd i brofiadau dysgu chwarae ymarferol yn yr amgylcheddau hyn*

Gellir defnyddio Indecs Cysylltu â Natur y RSPB.

**Cwestiwn 7** - A ydych chi'n gallu gweld sut y mae'ch cyfraniad at y blynyddoedd cynnar yng Nghymru'n cyd-fynd â'r Fframwaith?

Ydw

Nac ydw

Ansicr

Os nad ydych, beth sydd ar goll?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu gweld sut y mae ein cyfraniad at y blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn cyd-fynd â'r Fframwaith ond yn bryderus nad oes sôn unrhyw le yn y ddogfen am rôl yr amgylchedd naturiol na dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ni chafwyd sôn amdanynt chwaith yn y "cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru". Fodd bynnag gyda Bil yr Amgylchedd, Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru fel elfen hanfodol yn y datrysiad i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a'i holl adnoddau naturiol yn amlwg yn holl ddogfennau'r llywodraeth. Bydd y Fframwaith hwn yn effeithio ar blant cenedlaethau'r dyfodol a chanddynt hwy fydd y cyfrifoldeb dros reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy ac mae'n hollbwysig bod negeseuon ADCDF yn cael eu plethu i arfer y blynyddoedd cynnar o'r cychwyn – y ffordd hawsaf o sicrhau hyn yw cael mynediad i'r amgylchedd naturiol a phrofiad ohono trwy chwarae a dysgu.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli amrywiaeth o safleoedd ledled Cymru, coetiroedd, gwarchodfeydd natur ac mae hefyd yn helpu i reoli llawer o fannau gwyrdd eraill. Mae llawer o'r safleoedd hyn yn hygyrch iawn ac yn cynnwys llwybrau, ardaloedd chwarae a gweithgareddau addysg.

Mae tîm Addysg, Dysgu a Sgiliau Sector Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cynnig ymweliadau a hyfforddiant â chefnogaeth ar gyfer ymarferwyr sy'n dymuno hunanarwain neu ddatblygu syniadau am weithgareddau ar gyfer chwarae a dysgu yn yr amgylchedd naturiol.

Trwy gyfrwng Tîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu i Gymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cefnogi llunio Modiwl 6 a hyfforddiant dilynol Ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ac mae'n parhau i hyfforddi staff y Cyfnod Sylfaen, gwarchodwyr plant, gweithwyr chwarae ac mae ganddo gysylltiadau â staff Dechrau'n Deg ac Ysgolion Iach ac mae'n darparu rhwydwaith a hwylusir trwy Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru lle gall unrhyw ymarferydd ymuno â'r grŵp lleol, cael cefnogaeth a chymryd mantais o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn hapus i drafod ffyrdd o weithio gyda'r Adran Blynyddoedd Cynnar yn y dyfodol er mwyn helpu i gefnogi ar y cyd canlyniadau'r Fframwaith a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cwestiwn 8** – Bwriad y fframwaith canlyniadau yw bod yn offeryn defnyddiol ar gyfer cynllunio a gwerthuso a fydd yn cefnogi gwelliannau lle bo angen. Beth yw'r heriau posibl, os o gwbl o ran fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar ar lefel ymarferol?

Dim sylwadau

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

**Yn unol â chwestiwn 7, mae Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth a chwarae yn yr awyr agored yn elfennau allweddol o addysg y Blynyddoedd Cynnar ac mae dogfennaeth flaenorol y blynyddoedd cynnar wedi nodi pwysigrwydd defnyddio'r amgylchedd naturiol fel lleoliad diogel ac ysgogol.**

**Bydd y Fframwaith hwn yn effeithio ar blant cenedlaethau'r dyfodol a chanddynt hwy fydd y cyfrifoldeb dros reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy ac mae'n hollbwysig bod negeseuon ADCDF yn cael eu plethu i arfer y blynyddoedd cynnar o'r cychwyn – y ffordd hawsaf o sicrhau hyn yw cael mynediad i'r amgylchedd naturiol a phrofiad ohono trwy chwarae a dysgu.**

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech gadw eich atebion yn ddiennw, ticiwch yma: